GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

# Adolygiad thematig marwolaethau plant mewn tân

## Beth wnaethom ni:

- Adolygu llenyddiaeth
- Adnabod marwolaethau plant o'r gronfa ddata Adolygu Marwolaethau Plant
- Cynnal trafodaethau panel


## Ein canfyddiadau: Ffactorau risg

### Materion diogelwch ehangach

- Bygythiadau blaenorol o gynnau tân yn fwriadol
- Cyffuriau ac alcohol yn gysylltiedig gyda gosod tanau'n fwriadol
- Chwarae â thân

### Diogelwch personol / nodweddion unigol

- Plant < 5 oed
- Coginio dan ddylanwad cyffuriau/alcohol
- Diffyg goruchwyliaeth
- Yr oedolyn sy'n goruchwylio yn defnyddio alcohol
- Dychwelyd i adeilad sy'n llosgi
- Ysmygu



### Diogelwch yn y cartref / nodweddion y cartref

- Dim larwm mwg neu'r larwm mwg ddim yn gweithio
- Diffyg cynllun dianc rhag tân
- Nifer uchel o drigolion <15 oed
- Cartrefi incwm isel
- Gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'r teulu

Nodwyd rhagor o ffactorau risg yn y llenyddiaeth a rhoir manylion yn yr adroddiad technegol

## Ein canfyddiadau: Ymyriadau effeithiol

- Mae presenoldeb larwm mwg yn effeithiol wrth leihau amlder marwolaethau ac anafiadau i blant yn gysylltiedig â thân (yn achos tanau damweiniol)
- Mae gweithredu deddfau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gartrefi sy'n bodoli eisoes gael larymau mwg yn effeithiol wrth hyrwyddo defnydd larymau mwg
- Mae addysg diogelwch yn y cartref yn cynyddu cyfran y bobl sy'n gwneud newidiadau diogelwch y cartref, megis penderfynu ar gynllun dianc rhag tân a gosod larwm mwg sy'n gweithio

Cyfleoedd atal

## ➡ Negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd:

- Pwysigrwydd cael larwm mwg sy'n gweithio ymhob cartref
- Pwysigrwydd gwybod beth i'w wneud yn achos tân, 'mynd allan, aros allan, galw 999'
- Pwysigrwydd bod â chynllun dianc a dilyn cyngor diogelwch yn y cartref
- Peryglon coginio dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- Goruchwylio plant yn briodol e.e. angen gofalwr sobr ar bob plentyn

## ➡ Ffyrdd o rannu'r negeseuon hyn a negeseuon sy'n bodoli eisoes:

- Gellid ymchwilio i'r rhain gan y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chydweithwyr Gwella Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i benderfynu ar fecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu'r negeseuon hyn.

## ➡ Gweithgareddau atal sy'n bodoli eisoes:

- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ystyried y posibilrwydd o ychwanegu teuluoedd â phlant dan 5 oed i fod yn gymwys am wiriad diogelwch yn y cartref am ddim
- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ymchwilio i'r llwybrau o ran gweithredoedd atal lle bo bygythiad o gynnau tân yn fwriadol

## ➡ Deddfwriaeth:

- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ysgogi trafodaethau ynghylch deddfwriaeth yn ymwneud â larymau mwg.

Rhagfyr 2017